IS-DDEDDFWRIAETH

# CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD PRESWYL MAWR) (HYSBYSU) (CYMRU) 2020

## WG20-001

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan erthyglau 18(1), 20, 22(5) a 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

**Cychwyn**

**1.** Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 15 Ionawr 2020.

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli cyffredinol)(**2**);

ystyr "datblygiad preswyl mawr" ("*major residential development*") yw datblygiad—

(a) sy'n cynnwys 10 neu ragor o anheddau; neu

(b) sy'n ddatblygiad preswyl ar safle sy'n mesur 0.5 hectar neu ragor; ac

(c) nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle y mae safle'r cais wedi'i leoli.

**Cymhwyso**

**3.** Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio—

---

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).

(**2**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.

(a) mewn perthynas â thir yng Nghymru;

(b) a wneir ar 15 Ionawr 2020 neu ar ôl hynny;

(c) ar gyfer datblygiad sy’n ddatblygiad preswyl mawr;

(d) nad yw’r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

**Hysbysu Gweinidogion Cymru**

**4.** Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod cais am ddatblygiad preswyl mawr, rhaid i’r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

**5.** Pan fo’n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid iddo anfon at Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo’n ymarferol, drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

(a) copi o’r cais (gan gynnwys copïau o unrhyw blaniau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw asesiad priodol o’r perygl o lifogydd neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol;

(b) copi o’r hysbysiad gofynnol;

(c) copi o unrhyw sylwadau a wneir i’r awdurdod mewn cysylltiad â’r cais (gan gynnwys unrhyw farn a fynegir gan adran o’r llywodraeth, awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall);

(d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a baratoir gan unrhyw un o swyddogion yr awdurdod;

(e) copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddir o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**1**);

(f) copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhelir o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(**2**);

(g) datganiad o’r ystyriaethau perthnasol y mae’r awdurdod o’r farn eu bod yn dangos (os felly y mae hi) y dylid penderfynu ar gais am ddatblygiad preswyl mawr mewn ffordd nad yw’n cydymffurfio â’r cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd mewn perthynas â’r ardal lle y mae safle’r cais wedi’i leoli.

**Y cyfnod perthnasol cyn rhoi caniatâd ar gais gwyro**

**6.** Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo’n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaniateir i’r awdurdod roi caniatâd

(**1**) O.S. 2017/567 (W.136), y mae diwygiadau iddo.
(**2**) O.S. 2010/490, y mae diwygiadau iddo.

cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

**7.** Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu'r awdurdod—

(a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn cysylltiad â'r cais hwnnw; neu

(b) nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad hysbysu.

**Diwygiadau i Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012**

**8.** Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 2 (Dehongli)—

(i) yn y diffiniad o "datblygiad hysbysu" hepgorer paragraff (b); a

(ii) hepgorer y diffiniad o "datblygiad preswyl sylweddol".

(b) Ym mharagraff 5 (Hysbysu Gweinidogion Cymru) hepgorer y cyfeiriad at "ddatblygiad preswyl sylweddol", ac yn lle'r gair sy'n dilyn, rhodder "ddatblygiad" yn is-baragraff (g).



*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
9 Ionawr 2020